

**COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG PRIFYSGOL
CAERDYDD A GYNHALIWDYDD DDYDD IAU 8 HYDREF 2020 DRWY ZOOM, AM
10:00**

Yn Bresennol: Michael Hampson (Cadeirydd), Dónall Curtin, Dr Janet Wademan ac Agnes Xavier-Phillips.

Mynychwyr: Yr Athro Colin Riordan [hyd at Gofnod 836], Jason Clarke, Ian Davies, David Edwards [Cofnodion 838], Clare Eveleigh, Rashi Jain, Alison Jarvis, Vari Jenkins (Cymryd cofnodion), Karl Jones [Cofnod 838] Faye Lloyd, Paul Merison [Cofnod 838], Ruth Robertson, Claire Sanders, Robert Williams, a Wendy Wright.

831 MATERION RHAGARWEINIOL

NODWYD Y CANLYNOL

- 830.1 bod ymddiheuriad wedi cael ei dderbyn gan Paul Benamin;
- 830.2 Croesawyd Jason Clarke ac Ian Davies, cynrychiolwyr PricewaterhouseCoopers i'r cyfarfod;
- 830.3 bod Ruth Robertson, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, ac Vari Jenkins, Cynghorydd Llywodraethu, wedi cael eu croesawu i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor;
- 830.4 croesawyd aelodau'r tîm Archwilio Mewnol i'r cyfarfod.

831 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Derbyniwyd ac ystyriwyd er gwybodaeth bapur 20/60, 'Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.

NODWYD Y CANLYNOL

- 831.1 y byddai cylch gorchwyl y Pwyllgor, 7 fframwaith lensys a dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu yn y sesiwn Adolygu Risgiau ym mis Ionawr 2021;
- 831.2 bod y cwestiwn a ofynnwyd i'r cyfreithwyr mewn perthynas â phrosiect CIC a'r ymateb wedi cael ei drafod gyda chyfreithwyr y Brifysgol a oedd yn cefnogi'r Brifysgol drwy'r broses.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 831.3 Ysgrifennydd y Brifysgol i wneud gwaith dilynol mewn ymateb i adroddiad archwilio mewnol CIC.

832 DATGANIADAU BUDDIANT

- 832.1 Ni chafwyd unrhyw ddatgan buddiant.

833 COFRESTR RISGIAU

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/67C, 'Cofrestr Risgiau'. Gwahoddwyd yr Is-Ganghellor i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 833.1 bod canolfan brofi'r Coronafeirws yn cwblhau 440 o brofion y dydd yn Adeilad Hadyn Ellis, sy'n agos at ei gallu ac yn dangos bod cyfathrebu â myfyrwyr yn effeithiol;
- 833.2 bod y Brifysgol wedi cymryd cyngor cyfreithiol ar Wasanaeth Profi Coronafeirws y Brifysgol mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu gwasanaeth newydd. Cyn belled â bod y Brifysgol yn cydymffurfio â darpariaeth ar gyfer staff hyfforddedig, amgylcheddau gwaith diogel, rheoliadau gwaith ar gyfer caffael, a bod y cyflenwad o offer a hyfforddiant yn cael archwiliadau rheolaidd, byddai hyn yn lliniaru'r risgiau;
- 833.3 bod pryder y gallai myfyrwyr gael canlyniad negyddol a mynd ymlaen i ddala'r feirws. Amlinellir yn y ffurflen ganiatâd fod y canlyniad yn arwydd o'r diwrnod hwnnw, ac felly mae lefel y risg o gwynion llwyddiannus o ganlyniad i'r senario hwn yn isel;
- 833.4 [HEPGORWYD]
- 833.5 bod 2 gyfnod o weithredu diwydiannol yn ystod 2019/20 a oedd hefyd wedi effeithio ar fyfyrwyr yn ogystal â COVID-19. Roedd y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr yn adolygu cysondeb triniaeth i fyfyrwyr;
- 833.6 bod yr Uwch Gynghorydd Risg yn mynychu pob cyfarfod o IOG (arian) i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei hadlewyrchu'n rheolaidd yn y gofrestr risgiau;
- 833.7 bod Gweithdy Ystadau wedi cael ei gynnal ddiwedd mis Medi i drafod y portffolios amrywiol o risgiau ar gyfer rhaglenni cyfalaf. Bydd y themâu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Ystadau a Seilwaith;
- 833.8 [HEPGORWYD];
- 833.9 y bydd papur Mewnwelediad Brexit yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd;
- 833.10 bod pecyn wedi cael ei ddatblygu gan Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau llywodraeth y DU i gynnig benthyciadau a grantiau i gwmpasu gweithgarwch ymchwil y DU, a chydabod colli incwm myfyrwyr, sydd â diffygion traws-gymorthdaledig. Y gobaith yw y gellir gwneud ceisiadau o fis Tachwedd ymlaen a bod Llywodraeth y DU yn ceisio cadarnhau penderfyniadau ac ymrwymadau erbyn mis Mawrth 2021;
- 833.11 [HEPGORWYD]
- 833.12 y bydd cyfarfod Adolygu Risg ar gyfer aelodau'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2021, i gynnwys olrhain newidiadau mewn lefelau risg a'r camau sy'n cael eu cymryd i atal risgiau rhag ailymddangos yn y dyfodol.
- PENDERFYNWYD Y CANLYNOL
- 833.13 Ysgrifennydd y Brifysgol i rannu papur Mewnwelediad Brexit gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ôl i'r Bwrdd wedi'i ystyried;
- 833.14 Rhaglen Adolygu Risg i gael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor am eu hawgrymiadau ar gyfer eitemau ar yr agenda;

833.15 Bydd yr Adolygiad o Risg ym mis Ionawr 2021 yn ystyried sut mae risg yn rhan annatod o waith y Brifysgol.

834 DIGWYDDIADAU BYW

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/76HC, 'Digwyddiadau Byw'.

835 COVID-19 AC ADRODD RHEOLEIDDIOL CCAUC

NODWYD Y CANLYNOL

835.1 bod y Brifysgol yn aros am wybodaeth gan CCAUC ynghylch unrhyw newidiadau eraill i'r gofynion rheoliadol.

836 ADRODDIAD RHEOLI RISG BLYNYDDOL 2019/20

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/68C 'Adroddiad Blynyddol Rheoli Risgiau 2019/20' ar gyfer trafodaeth. Gwahoddwyd Rashi Jain, Ysgrifennydd y Brifysgol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

836.1 bod y Pwyllgor yn croesawu cynnwys is-gwmnïau a threfniadau trydydd parti yn y fframwaith Rheoli Risg diwygiedig;

836.2 [HEPGORWYD]

836.3 Gadawodd yr Is-Ganghellor y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

836.4 Bydd yr awydd am risg ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei adolygu yn yr Adolygiad o Risgiau ym mis Ionawr 2021 yn sgil COVID-19;

836.5 Dylai Adroddiad Rheoli Risg Blynyddol 2019/20 a gyflwynir i'r Cyngor atgoffa'r aelodau mai eu cyfrifoldeb hwy yw perchnogaeth risg;

836.6 Cefnogodd y Pwyllgor yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys y wybodaeth yng nghofnod 836.5 uchod;

837 ADRODDIAD CYNNYDD RHAGLEN ARCHWILIO 2019-2020

Derbyniwyd ac ystyriwyd i wneud penderfyniad arno, papur 20/62, 'Rhaglen Archwilio Adroddiad Cynnydd 2019-2020'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

837.1 bod y rhaglen archwilio lawn o 422 diwrnod, a ddiwygiwyd mewn ymateb i COVID-19 a'r angen i ailddyrranu adnoddau, wedi'i chyflawni.

837.2 bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar y trywydd iawn, ond bod rhai heriau o ran dychwelyd ymatebion y rheolwyr yn yr amserlen y cytunwyd arni;

837.3 bod angen math o fapio sicrwydd er mwyn cyfleu llinellau amddiffyn yn glir mewn meysydd hanfodol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 837.4 yr Adolygiad o Risgiau ym mis Ionawr yw ystyried mapio sicrwydd;
- 837.5 bydd Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried meysydd hanfodol ar gyfer dilyn argymhellion, i'w hystyried gan y Pwyllgor.
- 837.6 y byddai'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cwblhau ymatebion rheoli i adroddiadau archwilio mewnol yn parhau am 10 diwrnod.
- 837.7 y dylid cyfleu adroddiadau archwilio mewnol heb sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl a rhoi blaenoriaeth i'w trafod.

838 PWYNTIAU TRAFOD AR GYFER ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur dadl 20/61, 'Pwyntiau Trafod ar gyfer Adroddiadau Archwilio Mewnol'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

TG - TROSOLI TECHNOLEG AR ÔL COVID-19

NODWYD Y CANLYNOL

- 838.1 Ymunodd David Edwards, Karl Jones a Paul Merison â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon yn unig;
- 838.2 bod yr adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd TG a sut mae'n sail i'r holl waith ar draws y Brifysgol. Mae'n rhaid i ddysgu ar gyfer strategaeth ddigidol ystyried sut mae angen i ni fuddsoddi mewn technoleg, yn ogystal â sut rydym yn gweithredu yn y dyfodol, a nodi hen raglenni nad ydynt yn addas ar gyfer gweithio o bell;
- 838.3 bod cyfleoedd ynglŷn â sut y gall y Brifysgol reoli gofod, a gwireddu incwm, wrth i ffyrdd o weithio newid;
- 838.4 bod risgiau a chyfleoedd o ran recriwtio. Mae cadw staff yn ystyriaeth nawr y gall staff gael mynediad at gyfleoedd eraill na fyddai wedi bod ar gael cyn gweithio o bell;
- 838.5 bod y timau Gwasanaethau TG wedi rheoli'r newid cyflym i weithio gartref yn dda iawn;
- 838.6 [HEPGORWYD]
- 838.7 [HEPGORWYD]

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 838.8 Hoffai'r Pwyllgor glywed am y datblygiadau yn y Strategaeth Pobl i ystyried heriau a chyfleoedd recriwtio TG;
- 838.9 hoffai'r Pwyllgor gael trafodaeth agored i ddeall y meysydd risg gweithredol sy'n gysylltiedig â seiberddiogelwch a pha mor aeddfed yw system liniaru'r Brifysgol i allu ymateb;

- 838.10 mae'r Pwyllgor am adolygu'r rheolaethau mewnol a'r gofrestr risgiau i nodi'r strategaeth sy'n ymwneud â meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â TG;
- 838.11 bod grŵp, sy'n cael ei arwain gan y Prif Swyddog Gweithredu, a chyda mewnbwn gan y Grŵp Goruchwyllo Rheoli Gwybodaeth Data, yn ystyried diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â Seiberddiogelwch a sut y gallwn hysbysu'r Pwyllgor am faterion cysylltiedig. Dylai'r cynnig ystyried y sefyllfa bresennol, gwendidau, amlygiadau a pheryglon cyfredol sydd ar y gweill, ynghyd ag ymatebion arfaethedig i ymosodiad seiber ac atal.
- 838.12 Gadawodd David Edwards, Karl Jones a Paul Merison y cyfarfod.
- CIC
- NODWYD Y CANLYNOL
- 838.13 bod yr holl gamau gweithredu'n mynd rhagddynt ar wahanol gamau ac mae'r gwaith o gyflawni'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda yn yr hinsawdd bresennol;
- 838.14 bod diwylliant y Brifysgol yn parhau i fod yn fater y dylid ei adolygu maes o law.
- Rheoli Risg
- NODWYD Y CANLYNOL
- 838.15 bod y Bwrdd wedi cymryd cyfrifoldeb ffurfiol dros oruchwyllo rheoli risg;
- 838.16 mai Ysgrifennydd y Brifysgol yw Prif Swyddog Risg y Brifysgol;
- 838.17 bod gan y Brifysgol un aelod amser llawn o staff sy'n cefnogi adrodd am risg, a oedd yn peri risg pe na baent ar gael;
- 838.18 bod gwaith wedi dechrau ar nodi polisïau'r Brifysgol ac amserlen ar gyfer adolygu. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â gwaith ar y Cynllun Dirprwyo a'r Fframwaith Polisi;
- PENDERFYNWYD Y CANLYNOL
- 838.19 Byddai rhestr o holl bolisïau'r Brifysgol yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor.
- CSC
- 838.20 bod y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi;
- 838.21 bod yr Adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i adolygu prosiectau cyn iddynt gyrraedd y cam cymeradwyo. Mae angen gweld gweithgareddau fel bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru'n gynnar;
- 838.22 bod angen i'r Pwyllgor fod yn hyderus bod polisi'n briodol ac yn cael ei gymhwyso i nodi a lliniaru risgiau;
- 838.23 bod Adolygiad Camm a'r Ymrwymiad i Weithredu siarter llywodraethu dilynol yn tynnu sylw at yr angen am oruchwyliaeth strategol ddigonol ar

lefel y bwrdd. Bydd y darn hwn o waith yn edrych ar ble y gwneir penderfyniadau, sut yr adroddir am y rhain a ble, a'r g waith monitro wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

838.24 bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnwys archwiliad ar y Fframwaith Polisi fel rhan o Raglen Archwilio Mewnol 2021/22.

839 CYNLLUN BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL DIWYGIEDIG 2020/21

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/64, 'Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Diwygiedig 2020/21'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

839.1 Argymhellodd y Pwyllgor Gynllun Blynyddol archwilio mewnol diwygiedig 2020/21 i'r Cyngor.

840 TRACIWR

Derbyniwyd ac ystyriwyd i benderfynu arno, papur 20/63, 'Traciwr'. gwahoddwyd Wendy Wright, Uwch-archwilydd Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

841 STRATEGAETH DATBLYGU ARIANNOL AC ADOLYGIAD RHEOLIADAU ARIANNOL – DIWEDDARIAD

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/145C, 'Adolygiad o'r Strategaeth Datblygu Cyllid a'r Rheoliadau Ariannol – Diweddariad'. Gwahoddwyd Alison Jarvis, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ariannol, i siarad am yr eitem hon.

842 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/66, 'Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

842.1 Cytunodd y Pwyllgor i argymhell yr adroddiad i'r Cyngor.

843 CYFARWYDDYD CYFRIFON CCAUC I SAU/CYFLWYNIAD Y CYFRIFON

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/70C, 'Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC i SAU/Cyflwyno Cyfrifon'. Roedd Alison Jarvis, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ariannol, ar gael i siarad am yr eitem hon.

844 CYNNYDD ARCHWILIO ALLANOL 2019/20

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/71C, 'Cynnydd Archwilio Allanol 2019/20'. Roedd Jason Clarke, PricewaterhouseCoopers, ar gael i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 844.1 bod angen gwaith i gwblhau pensiynau, busnes hyfyw a rhai meysydd sy'n per pryder ar fantolen;
- 844.2 nad oedd unrhyw feysydd a fyddai'n broblemus neu'n achosi addasiadau;

845 ADRODDIAD IECHYD ARIANNOL

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/72C, 'Adroddiad Iechyd Ariannol'. Roedd Alison Jarvis, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ariannol, ar gael i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 845.1 bod ffocws y papur ar ganlyniadau 2019/20. Bydd papur sy'n peri pryder yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod eithriadol ar 28 Hydref 2020;
- 845.2 bod gwarged 2019/20 a ragwelwyd i fod yn £3.1m bellach yn cael ei ragweld i fod yn £15.4m.
- 845.3 yr aed i £1.7m o gostau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys: gwariant i gefnogi'r symudiad tuag at ddysgu o bell, addysgu ac asesu; offer igefnogi gweithio o bell; cronfeydd caledi; costau teithio ailwladoli; a chost teithiau maes wedi'u canslo ac ymweliadau astudio;
- 845.4 bod cyfran y Diffyg Gweithredu drafft a ragwelwyd yn y flwyddyn ar gyfer cyd-fenter CSC wedi creu diffyg o £2.9m.

846 PAPUR BARN

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/73C, 'Papur Barn'. Roedd Alison Jarvis, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ariannol, ar gael i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 846.1 y bydd angen i Drawssffurfio Caerdydd gyflawni os ydym am allu dychwelyd i'r fantol;
- 846.2 yr hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am gynnydd Trawssffurfio Caerdydd (Adolygiad Academaidd) gan ei fod yn allweddol i'r perfformiad ariannol.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

- 846.3 y bydd y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Trawssffurfio Caerdydd (Adolygiad Academaidd) ym mis Tachwedd 2020.

847 ADRODDIAD AR ANGHYSONDEBAU ARIANNOL

Derbyniwyd er gwybodaeth bapur 20/74C, 'Adroddiad Anghysondebau Ariannol'. Roedd Alison Jarvis, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Ariannol, ar gael i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

- 847.1 nad oes dim i'w adrodd.

848 UNRHYW FATER ARALL

NODWYD Y CANLYNOL

848.1 nad oedd unrhyw eitemau i'w hystyried o dan unrhyw fusnes arall.

849 TRAFODAETH AR HOLIADUR ARCHWILIO ALLANOL

NODWYD Y CANLYNOL

849.1 nad oedd cynrychiolwyr PricewaterhouseCoopers yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

849.2 bod aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn y canlyniadau o'r arolwg holiadur Archwilio Allanol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2020.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

849.3 y bydd cynrychiolwyr o PricewaterhouseCoopers yn cael crynodeb o'r adborth ar gyfer eu sylwadau.

850 ADOLYGIAD O FUSNES AR GYFER Y FLWYDDYN 2020/2021

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w trafod bapurau 20/75, 'Adolygiad o Fusnes y Flwyddyn 2020/2021'

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

850.1 bod y pwyllgor wedi cymeradwyo'r rhestr fusnes arfaethedig ar gyfer y flwyddyn 2020/21.

851 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w trafod bapurau 19/824B, '2020-06-20 Cofnodion y Pwyllgor Archwilio'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

851.1 cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2020 fel cofnod cywir a gwir.

852 SIARTER GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w trafod bapurau 20/65, 'Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

852.1 bod y Siarter yn cael ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo a'i chyhoeddi ar y wefan allanol.

853 RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLA ARCHWILIO MEWNOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/69, 'Rhaglen Sicrhau Answydd a Gwella'. Gwahoddwyd Faye Lloyd, Pennaeth Archwilio Mewnol, i siarad am yr eitem hon.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

853.1 y bydd yr arfarniad blynyddol sy'n ofynnol fel rhan o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei ystyried yn y sesiwn Adolygu Risg ym mis Ionawr;

853.2 dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ystyried cylch gwaith yr adolygiad archwilio ar gyfer 2021/22 fel rhan o'r adolygiad effeithiolrwydd arfaethedig o'r Cyngor a'i Bwyllgorau;

853.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cymryd rhan yng ngwaith yr holiadur i adolygu'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

854 DERBYN COFNODION Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU (19/5/20) A CHOFNODION PRC (30/6/20)

854.1 bod cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ar 19 Mai 2020 wedi cael eu derbyn gan y Pwyllgor;

854.2 bod cofnodion y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2020 wedi cael eu derbyn gan y Pwyllgor.

855 CÔD YMARFER PWYLLGOR ARCHWILIO AU CUC (MAI 2020)

855.1 Mae'r Cod Ymarfer wedi cael ei ddsbarthu i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

856 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20 – LLWGRWOBROWYO TWYLL A CHYDYMFFURFIAETH ARIANNOL ARALL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapur 20/121C, 'Adroddiad Blynyddol 2019/20 – Cydymffurfiaeth Twyll, Llwgrowbrwyo ac Ariannol Arall'. Gwahoddwyd Rashi Jain, Ysgrifennydd y Brifysgol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

856.1 bod risg uchaf y Brifysgol o ran Deddf Cyllid Troseddol 2017 yn ymwneud â'r gyflogres IR35 gan fod gwariant ymgynghori uchel ond nifer y staff ar gyflogres IR35 yn isel iawn. Mae rheolaethau a gwiriadau llym iawn ar waith, sy'n cael eu cwblhau gan gaffael ac Adnoddau Dynol y Brifysgol, cyn gwneud apwyntiadau;

856.2 bod gwaith ar y gweill i sicrhau bod polisïau'n mapio ar reoliadau'n gywir.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

856.3 Cyllid a'r Uwch Gynghorydd Risg i ddiwygio'r geiriad o dan risgiau i adlewyrchu bod mapio polisïau i reoliadau ar waith;

856.4 cymeradwyodd y Pwyllgor y papur i'w gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

857 EFFEITHIOLRWYDD POLISI DATGELU BUDDION CYHOEDDUS Y BRIFYSGOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapurau 20/77, 'Effeithiolrwydd Polisi'r Brifysgol ar Ddiogelu Lles y Cyhoedd. Gwahoddwyd Rashi Jain, Ysgrifennydd y Brifysgol, i siarad am yr eitem hon.

NODWYD Y CANLYNOL

857.1 y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys themâu datgeliadau.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

857.2 mae'r Pwyllgor am gael eglurhad o'r ddwy thema a adroddwyd yn 2019/20.

858 HYFFORDDIANT DIOGELWCH GWYBODAETH – CYNNWYS AC YSTADEGAU

Derbyniwyd ac ystyriwyd i'w drafod bapurau 20/78C, 'Hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth – Cynnwys ac Ystadegau.

NODWYD Y CANLYNOL

858.1 bod yr ystadegau ar gyfer cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn siomedig;

858.2 bod mwy o staff yn manteisio ar Wasanaethau Proffesiynol a bod y Prif Swyddog Gweithredu yn gweithio gyda Chofrestryddion y Coleg i annog staff academaidd i fanteisio ar y ddarpariaeth;

858.3 y byddai'n ddefnyddiol adolygu arfer gorau a nodi cyfleoedd i gynyddu'r broses gwblhau. Ar hyn o bryd, nid oes sancsiwn clir i staff nad ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant.

858.4 bod gan Ysgrifennydd y Brifysgol bob cefnogaeth i'r pwyllgor i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau.

PENDERFYNWYD Y CANLYNOL

858.5 Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Prif Swyddog Gweithredu i godi diffyg cydymffurfio â hyfforddiant diogelwch gwybodaeth gyda Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, i ystyried pa sancsiwn y gellid ei osod;

858.6 cadarnhau'r goblygiadau i'r Brifysgol os na chyflawnir cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelwch gwybodaeth;

858.7 byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am gydymffurfiaeth hyfforddiant diogelwch gwybodaeth yn cael ei darparu yn y cyfarfod nesaf.

859 CYFARFOD YN Y DIRGEL

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risgiau, cynhaliwyd cyfarfod yn y *dirgel*. Dim ond aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol oedd yn bresennol.